



## **PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 10 Mai 2018 am 1.00 pm ym Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd R Bevan    Y Cyngorydd A Crimmings  
Y Cyngorydd M Norris    Y Cyngorydd J Rosser  
Y Cyngorydd R Lewis    Y Cyngorydd C Leyshon

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Ms E Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Mrs J Cook, Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai  
Mr R Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol  
Mr A Wilkins, Pennaeth Materion Cyfreithiol – Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethol  
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol  
Ms A Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant  
Ms J Ellis, Housing Strategy And Investment Manager  
Ms Z Lancelott, Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad  
Mrs N. Kingham, Rheolwr Bwrdd Diogelu Cwm Taf

### **Eraill oedd yn bresennol**

Y Cyngorydd M Griffiths  
Y Cyngorydd R Yeo

#### **142 YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber a G Hopkins.

#### **143 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chôd Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol sy'n ymwneud â'r agenda eu gwneud:

- a) Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan mewn perthynas ag eitem 5 ar yr agenda: "Mae gen i oddefeb, wedi'i roi gan y Pwyllgor Safonau ar 8 Rhagfyr 2017, i siarad a phleidleisio ar bob mater yn ymwneud â'r Grŵp Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, heblaw am unrhyw faterion penodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fy merch, sy'n gweithio i'r Cyngor yn y Grŵp Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

fel y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Mynediad a Galluogi.”

- b) Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol mewn perthynas ag eitem 12 ar yr agenda: "Fi yw Cyfarwyddwr Amgen. Bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y mater yn cael ei drafod a thra bydd pleidleisiau yn cael eu bwrw."

#### 144 COFNODION

**PENDERFYNODD** y Cabinet i gymeradwyo cofnod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill, 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

#### 145 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – TAI AMLFEDDIANNAETH

Rhoddodd y Cyfarwyddwr, Adfywio, Cynllunio a Thai adroddiad i'r Aelodau a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (HMO), a gafodd ei gynnal rhwng 25 Ionawr, 2018 a 23 Mawrth, 2018.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am yr angen i ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol. Byddai modd defnyddio'r rhain i gynorthwyo wrth ystyried ceisiadau cynllunio o ran gwrthsefyll ceisiadau am Dai Amlfeddiannaeth amhriodol neu Dai Amlfeddiannaeth mewn ardaloedd sydd eisoes â chrynodeiadau uchel ohonyn nhw. Cafodd ei ychwanegu y byddai modd i'r canllawiau fod o gymorth i godi safon y Tai Amlfeddiannaeth ac i leoli unrhyw Dai Amlfeddiannaeth newydd yn y dyfodol yn y lleoliadau mwyaf addas.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr grynodedb byr o'r ymatebion a gafodd eu derbyn i'r ymgynghoriad. Yn gyffredinol roedden nhw'n gefnogol o'r canllawiau.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai i'r rhai a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ond gwnaeth sylwadau am y nifer isel o bobl wnaeth ymateb. Croesawodd y Canllawiau Cynllunio Atodol a gwnaeth sylwadau ynglŷn â sut y byddai'n gymorth i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu wrth ystyried ceisiadau cynllunio mewn perthynas â Thai Amlfeddiannaeth yn y dyfodol. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar effeithiau Tai Amlfeddiannaeth mewn perthynas â Threfforest a'r cyfraniad cadarnhaol bydd y canllawiau'n cael yn y dyfodol o ran cynaliadwyedd a chydlyniant cymunedau.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Nodi'r cofnod o'r ymgynghoriad a'r ymatebion i'r sylwadau am yr ymgynghoriad, sydd yn atodiad 1 o'r adroddiad.
2. Mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol, 'Tai Amlfeddiannaeth (HMOs)' at ddibenion polisi cynllunio, fel sydd yn atodiad 2 o'r adroddiad.

## YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD I BOLISI CYNLLUNIO DRAFFT CYMRU ARGRAFFIAD 10

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr, Adfywio, Cynllunio a Thai yr Aelodau at ei hadroddiad sy'n amlinellu cynnwys Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) sydd wedi ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd yr Aelodau eu cynghori fod Polisi Cynllunio Cymru yn ddogfen bolisi cynllunio defnydd tir sy'n cael ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu a pholisïau cynllunio lleol fel Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n benderfyniad materol i swyddogion ac Aelodau pan fyddan nhw'n ystyried ceisiadau cynllunio. Amlinellodd y Cyfarwyddwr ei fod yn bwysig bod y Cyngor yn gwneud sylwadau priodol ar y polisi, gan ei fod yn rhan sylfaenol o'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, sy'n gweithredu fel sylfaen i'r cynllun, er mwyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phrosesau a phenderfyniadau cynllunio yn Rhondda Cynon Taf.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at rannau allweddol o'r ddogfen ymgynghori gan gynnwys y 5 egwyddor cynllunio allweddol. Dywedodd nad oedd unrhyw gyfeiriad at ddatblygiad economaidd, twf neu ffyniant yn egwyddorion allweddol cynllunio. Yn dilyn ei chrynodeb o'r ddogfen cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at Atodiad A o'r adroddiad sy'n rhoi ymateb ymgynghoriadol cyffredinol drafft i'r polisi, ar gyfer sylwadau'r Aelodau.

Cymeradwyodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai yr ymateb drafft a gafodd ei ddarparu a gwnaeth sylwadau am yr angen am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â pha elfennau yn y ddogfen sy'n anhepgor, pa rai sy'n ffurfio polisi ac os yw rhannau o'r ddogfen yn offer cyfarwyddyd i helpu i ddylunio a chynllunio datblygiadau yn unig neu'n rhestir wirio ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd am bwysigrwydd Cynlluniau Datblygu Strategol a fyddai'n cefnogi dyheadau'r ddinas-ranbarth yn y dyfodol.

### PENDERFYNNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig (Argraffiad 10) a gafodd ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori gan Lywodraeth Cymru ([Polisi Cynllunio Cymru Drafft Argraffiad 10](#))
2. Cytuno ar yr ymateb ymgynghori cyffredinol, fel sydd yn Atodiad A yr adroddiad, a chyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru.
3. Rhoi awdurdodiad i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cynllunio i gyflwyno ymateb manwl pellach i Lywodraeth Cymru ar y cwestiynau technegol sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad, fel sydd yn Atodiad B yr adroddiad.

(**O.N.** Ymunodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Griffiths â'r cyfarfod ar ddechrau'r eitem yma).

## BYRDDAU DIOGELU CWM TAF – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19

Rhoddodd Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf drosolwg o'r Cynllun

Blynyddol ar gyfer 2018/19 ar gyfer Bwrdd Diogelu Cwm Taf (Plant, Oedolion a Hwb Diogelu Amlasiantaeth).

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Bwrdd Diogelu Cwm Taf (CTSB) yn bartneriaeth statudol sy'n cynnwys yr asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yng Nghwm Taf. Ychwanegodd mai nod Bwrdd Diogelu Cwm Taf yw sicrhau bod pobl o bob oed, sy'n byw yng Nghwm Taf, yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeuluso neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal camdriniaeth, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 o'r adroddiad, sy'n rhoi chwe chanlyniad allweddol sy'n flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, er mwyn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni'i amcanion. Cyfeiriodd y Rheolwr Busnes at gryfhau darpariaeth yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth, gwell adrodd ar berfformiad a datblygu'r agenda atal camdriniaeth ac esgeulustod.

Diolchodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc i'r Cabinet am ei waith da a oedd yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniadau cadarnhaol y rhai mae yn eu cefnogi. Gwnaeth y Dirprwy Aelod o'r Cabinet sylwadau ar y ddau amcan diogelu allweddol sy'n ymwneud ag amddiffyn ac atal sy'n sail i waith Bwrdd Diogelu Cwm Taf. Argymhellodd bod gwaith y bwrdd mewn perthynas â diogelu yn erbyn 'Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant' yn ardal Cwm Taf yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi a chymeradwyo cynnwys Cynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar gyfer 2018/19, fel sy'n cael ei amlinellu yn Atodiad 1 o'r adroddiad.
2. Derbyn cyflwyniad mewn cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol, sydd yn amlinellu gwaith y Bwrdd hyd yn hyn mewn perthynas â Diogelu yn erbyn 'Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant' yng Nghwm Taf.

(**O.N.** Fel y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 143, cyfeiriodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol at oddefeb wedi'i rhoi gan y Pwyllgor Safonau ac arhosodd yn y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod a phan gynhaliwyd y bleidlais ar yr eitem.)

## **148 DARPARIAETH FEITHRIN MAE'R CYNGOR YN EI CHYNNAL**

Rhoddodd Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad fanylion i Aelodau'r Cabinet am y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaeth meithrinfa dydd yn y feithrinfa ddydd sy'n cael ei rhedeg gan y Cyngor yn Ynyscynon. Rhoddodd ragor o fanylion i Aelodau ynghylch opsiynau posibl ar gyfer newid gwasanaeth.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa y cafodd Meithrinfa Ynyscynon ei throsglwyddo o'r adran Addysg i'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn 2016. Dywedodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad wrth yr Aelodau bod y Feithrinfa'n cael cymhorthdal gan y Cyngor ar hyn o bryd, ac nad oes un o'r plant sydd wedi'u cofrestru yn y feithrinfa'n talu am eu lle. Parhaodd trwy esbonio bod hyn yn gyfle amserol i adolygu'r modd y mae'r gwasanaeth ym Meithrinfa Ynyscynon yn cael ei ddarparu, i nodi gwelliannau i'w gwneud i'r gwasanaeth a sut i wneud

arbedion ariannol heb effeithio'n negyddol ar blant a theuluoedd yn yr ardal honno.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth yr Aelodau at Adran saith o'i hadroddiad sy'n cyflwyno crynodeb o'r opsiynau ar gyfer adolygu'r gwasanaeth iddyn nhw eu hystyried. Opsiwn un yw cadw'r status quo ac opsiwn dau yw gorffen y ddarpariaeth feithrin yn ystod y dydd.

Siaradodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet, Plant a Phobl Ifainc ar yr opsiynau yn yr adroddiad. Gwnaeth sylwadau ar Opsiwn dau gan dynnu sylw at y cyfleoedd o flaen y Cyngor gan nad oes unrhyw blant sydd wedi cael eu cofrestru yn y feithrinfa yn talu am eu lle. Ychwanegodd, gan fod digon o ddarpariaeth gofal plant yn yr ardal ar hyn o bryd, ni fyddai atal darpariaeth gofal plant anstatudol y codir tal ar ei chyfer yn Ynyscynon a darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg yn unig yn cael effaith negyddol ar unrhyw blant neu deuluoedd yn yr ardal.

Gofynnodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet i'r swyddog cyfreithiol ynghylch a fydd gofyn i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad os bydd opsiwn dau yn cael ei symud ymlaen, pan nad oes unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol. Dywedodd y swyddog cyfreithiol bod cynnal ymgynghoriad yn arfer da cyn newid unrhyw wasanaeth, er mwyn galluogi'r Cyngor i ymgysylltu ag unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth neu unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth posibl yn y dyfodol. Serch hynny, ychwanegodd y byddai ymgynghoriad pedair wythnos yn dderbyniol.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ar y cynnig ac ar y posibilrwydd y bydda'r ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yn symud o'i lleoliad presennol. Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet bod yr holl Aelodau Lleol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg ym Meithrinfa Dydd Ynyscynon yn cael eu hymgyngori am unrhyw newid arfaethedig mewn perthynas â lleoliad arall ar gyfer darparu Gofal Plant Dechrau'n Deg.

#### **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r trefniadau darparu gwasanaeth presennol a'r adnoddau cysylltiedig fel y maen nhw'n cael eu nodi yn adrannau 5 a 6 yr adroddiad.
2. Yn dilyn ystyriaeth o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer adolygiad o'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu (fel sy'n cael ei nodi yn adran 7 a 10 o'r adroddiad) i gynnal ymgynghoriad 4 wythnos ar opsiwn 2, fel sy'n cael ei amlinellu isod:

#### **Opsiwn 2 - Rhoi'r Gorau i Ddarpariaeth Meithrinfa Dydd**

##### **Ynyscynon:**

- Rhoi'r gorau i gynnig darpariaeth gofal plant anstatudol y codir tal ar ei chyfer yn Ynyscynon a darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg yn unig. Mae hyn yn cael ei argymhell gan nad oes un o'r plant sydd wedi'u cofrestru yn y feithrinfa'n talu am eu lle.
- Adolygu a rhesymoli cytundebau staff presennol a rotâu

staff yn Ynyscynon er mwyn sicrhau'r lefelau gorau posibl o adnoddau a hyblygrwydd gwasanaeth gan ddarparu staff ar gyfer 32 o blant Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cael ei gynnig oherwydd bod y trefniadau staffio presennol yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol i gynnal darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig.

3. Derbyn adroddiad pellach yn manylu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas ag opsiwn 2 at ystyriaeth Aelodau'r Cabinet.

## **149 ADOLYGU CYNLLUN DYRANNU TAI A NEWIDIADAU POLISI ALLWEDDOL CYSYLLTIEDIG**

Rhoddodd y Rheolwr Strategaeth Tai a Buddsoddiad adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu newidiadau polisi a gweithredol arfaethedig i Gynllun Dyrannu Tai Rhondda Cynon Taf ('Y Cynllun') o ganlyniad i adolygiad diweddar o'r Cynllun a'r broses ymgynghori.

Dywedodd y Swyddog y cafodd Cynllun Dyrannu Tai Rhondda Cynon Taf ei adolygu'n sylweddol yn ôl yn 2014, a chafodd mân newidiadau eu gwneud yn 2016 a 2017 mewn perthynas â Deddf Tai (Cymru) 2014. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau, ers yr amser yma mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Dyrannu Llety a Digartrefedd yn 2016. Mae'r Canllawiau yma yn rhoi cyfarwyddyd y mae rhaid i Awdurdodau Lleol glynu ato wrth gyflawni'u swyddogaethau mewn perthynas â dyrannu tai a datblygu a gweithredu Cynllun Dyrannu Tai. Mae'r Cod yn cynghori Awdurdodau Lleol i adolygu eu Cynlluniau Dyrannu Tai bob dwy flynedd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac arfer da. O'r herwydd, roedd yn amserol yn 2017, i gynnal arolwg mwy cynhwysfawr o'r Cynllun. Mae swyddogion hefyd wedi bod yn effro i bolisiau diwygio lles y Llywodraeth Ganolog a oedd fod i ddod i rym yn 2019, er na fydd rhai o'r polisiau hyn bellach yn cael eu datblygu.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 7 o'r adroddiad sy'n rhoi manylion y newidiadau allweddol arfaethedig i Gynllun Dyrannu Tai y Cyngor mewn perthynas â Fforddiadwyedd, Dyrannu Tai a Addaswyd, Cynllun Brandio, Ôl-ddyledion Rhent, Cynlluniau Gosod Eiddo Lleol ac Ymgeiswyr Digartref.

Gwnaeth y Dirprwy Aelod o'r Cabinet sylwadau ar y ddau newid polisi mewn perthynas â'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer pobl 18 i 21 oed a'r Budd-dal Tai Credyd Cynhwysol. Croesawodd y newidiadau arfaethedig i'r cynllun a fyddai'n sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddiwallu ei angen am dai yn effeithiol. Gwnaeth y Dirprwy Aelod o'r Cabinet sylwadau ar y cyfeiriad penodol at Ymgeiswyr Digartref a sut mae dioddefwyr Cam-drin Domestig yn cael eu trin ar y system fandio. Parhaodd trwy ychwanegu bod y cynllun yn cynorthwyo i adeiladu cymunedau cytbwys a chynaliadwy, yn helpu i atal digartrefedd ac yn hyrwyddo annibyniaeth a ffyniant i breswylwyr, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau tai statudol yn effeithiol.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor hefyd yn gadarnhaol am y cynllun a holodd ynglŷn â'r polisi gosod eiddo lleol ac a fyddai modd diwygio ychydig o'r eirfa yn y polisi er mwyn cryfhau safbwynt y Cyngor ar gyfer y dyfodol. Siaradodd y Rheolwr Strategaeth Tai a Buddsoddiad ynglŷn â'r trefniadau sydd mewn lle a

chadarnhaodd byddai modd newid yr eirfa er mwyn cryfhau safbwynt y Cyngor.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo ar yr eitem yma yn y cyfarfod yn dilyn cam cyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu gan y Pwyllgor Iechyd a Lles ar y Cynllun a'r newidiadau i'r Polisi.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau, yn amodol ar y mân ddiwygiadau sy'n ymwneud â'r 'polisi gosod eiddo lleol' fel y cafodd ei amlinellu gan Aelodau yn ystod y cyfarfod.
2. Cymeradwyo'r newidiadau polisi arfaethedig i'r Cynllun Dyrannu Tai fel sy'n cael eu manylu yn yr adroddiad er mwyn eu gweithredu yn ystod mis Mehefin 2018.

**(O.N.** Ar ddiwedd yr eitem yma, gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R Yeo y cyfarfod)

150

### **GWASANAETH YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD IEUENCTID**

Rhoddodd y Pennaeth Materion Ymgysylltu a Chyfranogiad amlinelliad i'r Aelodau o flaenoriaethau diwygiedig y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, yn unol â throsglwyddo'r gwasanaeth o gyfadrann Addysg a Dysgu Gydol Oes i gyfadrann Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned. Rhoddodd wybodaeth i'r Aelodau hefyd am y model cyflenwi newydd sydd ei angen i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau newydd y gwasanaeth.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Fanylion i'r Aelodau ynglŷn â llwyddiant y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid hyd yma i gyflawni deilliannau sylweddol yn erbyn blaenoriaethau addysg. Cyfeiriodd at y wobr yr enillodd y Gwasanaeth; RhCT yw'r Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i ennill y Marc Ansawdd Efydd, Arian ac Aur am Waith Ieuenctid yng Nghymru.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran pump yr adroddiad sy'n cyflwyno'r model cyflenwi newydd sydd i'w weithredu a'r pedair blaenoriaeth ddilynol i gyflawni nod y gwasanaeth' *i gefnogi pobl ifainc 11-25 oed i wella eu cydnherthedd i ddelio â heriau presennol a rhai yn y dyfodol, gan gefnogi eu lles a'u hymgysylltiad cadarnhaol a chyfraniad at y cymunedau lle maen nhw'n byw*.

Diolchodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc i staff y gwasanaeth am eu gwaith caled a'u hymroddiad sydd wedi arwain at lwyddiant y gwasanaeth, sy'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad. Siaradodd hefyd am ddatblygu'r dull newydd o weithio er budd y bobl ifainc sy'n defnyddio'r gwasanaeth gan gyfeirio at y cyfleoedd sydd ar gael yn awr o ganlyniad i ddatblygu'r Canolfannau Cymunedol.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, siaradodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol M Griffiths am yr eitem yma, gan gyfeirio at ymgysylltiadau ieuenctid posibl â Chynghorau Cymuned.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r blaenoriaethau newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid fel sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad.

2. Cymeradwyo'r model cyflenwi newydd ar gyfer y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid fel sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad.
3. Y dylid ychwanegu eitem at agenda cyfarfod nesaf Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned mewn perthynas ag 'Ymgysylltu Ieuenctid â Chynghorau Cymuned'.

## 151 **EITHRIAD TAW AR WEITHGAREDDAU CHWARAEON**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol ei adroddiad i'r Aelodau sy'n nodi manylion eithriad TAW ar ddarparu gwasanaethau chwaraeon mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol, a gafodd ei herio'n gyfreithiol yn ddiweddar. Dywedwyd wrth yr aelodau fod Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd wedi canfod, yn achos Bwrdeistref Ealing Llundain (Achos C 633/15), fod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi bod yn anghywir wrth gyfyngu Awdurdodau Lleol rhag yr eithriad a phenderfynodd bod yn rhaid iddo gael ei gymhwyso i gyrff cyhoeddus a chyrrff eraill sydd ddim yn gwneud elw, oherwydd fel arall byddai'n ystumio'r gystadleuaeth.

Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i roi gwybod i'r Aelodau am y camau sydd wedi cael eu cymryd hyd yma i ôl-ddyddio cais yr Awdurdod. Dywedodd y byddai'r cyfanswm amcangyfrifedig o geisiadau'r Cyngor sydd wedi cael eu hôl-ddyddio ar gyfer y cyfnod o 31 Mai 2018 ac yn ôl hyd at 1 Chwefror 2011 yn dod i £3.1 miliwn (adnodd unwaith ac am byth). Mae'n cael ei amcangyfrif mai goblygiad ariannol blwyddyn llawn parhaus (incwm ychwanegol) fydd £600 mil y flwyddyn (cyllideb sylfaenol) ar lefelau incwm cyfredol. Yr incwm ychwanegol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 (mis Mehefin 2018 i fis Mawrth 2019) fydd £500 mil. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai cyfanswm y buddion wedi'u hôl-ddyddio a buddion am ran o flwyddyn 2018/19 yw tua £3.6 miliwn ac nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yng nghynlluniau ariannol y Cyngor hyd yma. Parhaodd y Cyfarwyddwr trwy awgrymu bod y swm yma'n cael ei neilltuo (arian iro) ar gyfer cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i gefnogi cyfleoedd Buddsoddi i Arbed pan fyddan nhw'n codi.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr am ei adroddiad a chroesawodd yr adnodd unwaith ac am byth. Cytunodd y dylai'r adnodd gael ei glustnodi i gefnogi cyfleoedd Buddsoddi i Arbed pan fyddan nhw'n codi. Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion sydd wedi cymryd rhan am gyflwyno'r cais amddiffynnol cychwynnol i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ym mis Chwefror ar ddechrau achos Bwrdeistref Ealing Llundain.

### **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi canlyniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn achos Bwrdeistref Ealing Llundain (Achos C 633/15);
2. Gweithredu'r eithriad ar gyflenwad gwasanaethau chwaraeon o 1 Mehefin 2018;
3. Nodi'r arian annisgwyl unwaith ac am byth o'r ceisiadau wedi'u hôl-ddyddio a'r effaith ar gyllideb referniw 2018/19;



4. Bod yr adnodd yn cael ei neilltuo ar gyfer cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer mentrau Buddsoddi i Arbed; a
5. Bod yr arbedion ariannol parhaus yn cael eu cynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor o 2019/20.

## 152 STRWYTHURAU'R PRIFFYRDD

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaeth y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd drosolwg i'r Aelodau o'i adroddiad. Roedd yr adroddiad yn rhoi uchafbwyntiau'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn y rhaglen arolygu'r priffyrdd a safleoedd sydd ddim yn briffyrdd a'r rhaglen waith ar draws y Fwrdeistref Sirol. Hefyd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybodaeth am y gwaith sydd wedi cael ei wneud i gryfhau'r rhaglen arolygu i gefnogi buddsoddiad pellach mewn meysydd sy'n flaenoriaethau allweddol lle a phryd mae adnoddau ychwanegol ar gael.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y camau a gafodd eu gweithredu yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Tachwedd, 2016. Parhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth drwy roi adroddiad i'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn gweithredoedd o'r fath, mewn perthynas â Rhaglen Waith Mawr Strwythur y Priffyrdd, Rhaglen Mân Waith Strwythur y Priffyrdd a Strwythurau sydd ddim yn rhan o'r Priffyrdd, megis pontydd, waliau cynnal a cheuffosydd. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod am y cyllid unwaith ac am byth sydd ar gael a'r adnoddau staffio sydd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen mewn perthynas â strwythurau priffyrdd a strwythurau sydd ddim yn rhan o'r briffordd.

Parhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei gyflwyniad o'i adroddiad trwy roi gwybod am y dyletswyddau peirianeg strwythurol yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio a rheoli adeiladu a throsglwyddo'r cyfrifoldebau yma. Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am yr adroddiad a chroesawodd yr ymagwedd ragweithiol mewn perthynas â chynnal a chadw strwythur, a fyddai'n helpu i gynnwys costau ac ymestyn oes potensial strwythurau'r Cyngor. Ychwanegodd hefyd y byddai rhesymoli dyletswyddau yn ymwneud â swyddogaethau Cynllunio a Rheoli Adeiladu yn dod â phob mater sy'n berthnasol i strwythurau o dan Adran Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd ac y byddai'n cryfhau ymhellach y trefniadau yn yr ardal yma.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r ymrwymiad buddsoddi cyfredol sy'n cefnogi'r rhaglen sylweddol o strwythurau sy'n cael eu cynnal ar draws y Fwrdeistref Sirol.
2. Cymeradwyo'r cynigion mewn perthynas ag arolygiadau priffyrdd a'r gwaith ymyrryd rhagweithiol ychwanegol ar gyfer y rhaglen mân waith.
3. Cymeradwyo'r cynigion mewn perthynas â throsglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer holl Strwythurau Parciau a Chefn Gwlad i'r Garfan Strwythurau Priffyrdd a sefydlu prosesau archwilio a chynnal mwy cadarn.
4. Cymeradwyo'r cynnig i drosglwyddo cyfrifoldeb yn ymwneud â dyletswyddau peirianeg strwythurol ar gyfer swyddogaethau Cynllunio a Rheoli Adeiladu.

5. Bod y dyraniad cyllid ychwanegol o £320 mil ar gyfer 2018/19 i'w ariannu o adnoddau sydd ar gael am unwaith ac am byth yn 2018/19, ac ar gyfer y dyfodol i ystyried hyn ymhellach fel rhan o drefniadau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

### 153 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

**PENDERFYNWYD:** "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff xx o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

### 154 PROSESU DEUNYDDIAU AILGYLCHU CYMYSG

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen ei adroddiad i'r Aelodau. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n cyflwyno'r dewis i'r Cyngor fuddsoddi, drwy'r cwmni mae'n berchen arno (Amgen), mewn technoleg newydd i greu newid effeithlonrwydd syfrdanol.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Yn dilyn ystyriaeth o'r cynnig fel y'i nodwyd yn yr adroddiad i gefnogi'r buddsoddiad;
2. Awdurdodi swyddogion i gychwyn proses gaffael i sicrhau'r dechnoleg sy'n fwyaf effeithlon yn ariannol ac yn weithredol; a
3. Bod adroddiad achos busnes dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried a'i gymeradwyo.

(**D.S.** Fel sydd wedi ei nodi yng nghofnod 143, pan gafodd trafodaeth a phleidlais eu cynnal ynglŷn â'r eitem yma, gadawodd Mr B. Davies, Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Ariannol – y cyfarfod.)

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.15 pm**

**Cllr A Morgan  
Cadeirydd.**